# Canllaw Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

11/02/2019
See all updates
Rydym wedi casglu rhai o ddolenni defnyddiol at wybodaeth gan y Llywodraeth ac asiantaethau eraill i helpu sefydliadau treftadaeth i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'n bwysig bod sefydliadau treftadaeth yn asesu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â Brexit, fel y gallant baratoi cystal ag y bo modd ar gyfer ystod o ganlyniadau

## Canllaw

### Safle gwybodaeth y Llywodraeth am ymadael â'r UE

Mae'n rhoi gwybodaeth am sut i baratoi a'r camau y bydd angen i sefydliadau ac unigolion eu cymryd.

### Gadael yr UE – beth sydd angen i chi ei wybod, yr Alban

Mae'r safle gwybodaeth a chanllawiau yma'n darparu cymorth i baratoi ar gyfer gadael yr UE, gan gynnwys mewn Brexit heb gytundeb.

### Paratoi Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu gwefan newydd, Paratoi Cymru, sy'n cynnwys ystod o wybodaeth a chyngor i sefydliadau ar oblygiadau Brexit heb gytundeb

### Buddsoddi yng Ngogledd Iwerddon

Adnodd un stop o ganllawiau arfer gorau, cyngor gwybodaeth a chymorth sydd ar gael gan Invest NI i helpu busnesau i baratoi ar gyfer Brexit.

### Arweiniad gan y Llywodraeth ar sut i baratoi ar gyfer Brexit os nad oes cytundeb

Mae'r canllawiau'n cynnwys gwneud cais am raglenni a ariennir gan yr UE, arian a threth, data personol a hawliau defnyddwyr, diogelu'r amgylchedd, cymorth gwladwriaethol, astudio yn y DU neu'r UE, teithio rhwng y DU a'r UE a hawliau yn y gweithle.

### Taflen ffeithiau Brexit NCVO

Taflen ffeithiau sy'n nodi prif ystyriaethau Brexit ar gyfer sefydliadau gwirfoddol yn y DU yn ogystal â chamau ymarferol y gallant eu cymryd i baratoi ar gyfer yr amgylchedd ôl-BREXIT.

### Paratoi at Brexit - Canllaw i fudiadau'r trydydd sector bach a mawr yng Nghymru

Canllaw i helpu cyrff cymdeithas sifil yng Nghymru i asesu risgiau Brexit ac ystyried paratoadau posibl.

### Canllaw ymadael yr UE Cyngor Celfyddydau Lloegr

Mae'n darparu gwybodaeth am Brexit ar gyfer amgueddfeydd a llyfrgelloedd yn ogystal â'r celfyddydau. Mae'n cyfeirio at nifer o ffynonellau allanol.

## Ymchwil

### Arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer amgylchedd hanesyddol Lloegr

Comisiynodd Historic England Euclid i ganfod faint o arian o ffynonellau'r UE sydd wedi'i fuddsoddi yn nhreftadaeth Lloegr rhwng 2007 a 2016. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod prosiectau cysylltiedig â threftadaeth wedi cael o leiaf £450m o gyllid yr UE yn ystod 2007-2016.

### Cyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer amgylchedd hanesyddol yr Alban

Mae Amgylchedd Hanesyddol yr Alban wedi comisiynu'r adroddiad yma i nodi prosiectau neu gysylltiadau â threftadaeth yn yr Alban sydd wedi cael cyllid gan yr UE o 2007-16. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod o leiaf £36.8 miliwn wedi'i ddyfarnu i fwy na 280 o brosiectau amgylchedd hanesyddol yn ystod 2007-2016.

### Arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y celfyddydau, amgueddfeydd a'r diwydiannau creadigol yn Lloegr

Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Lloegr adroddiad i asesu cyfraniad yr Undeb Ewropeaidd at y celfyddydau, amgueddfeydd a'r diwydiannau creadigol yn Lloegr. Canfu fod £345m wedi'i ddyfarnu rhwng 2007-16, sy'n cyfateb i £40m bob blwyddyn.

### Arian yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y dreftadaeth ddiwylliannol yn yr Alban

Mae Amgueddfeydd ac Orielau'r Alban yn nodi prosiectau a ariennir gan yr UE sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth ddiwylliannol neu sy'n gysylltiedig â hi dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'r adroddiad yn amcangyfrif bod o leiaf £5.6m wedi'i ddyfarnu i'r sector amgueddfeydd ac orielau yn ystod 2007-2016.

g 2007-2016.